OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 873

# Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

## RHAN 1

Cyffredinol

**Ymddygiad a disgyblaeth a gallu'r staff**

**7.**—(1) Mae rheoli ymddygiad a disgyblaeth mewn perthynas â staff yr ysgol, ac unrhyw weithdrefnau ar gyfer rhoi cyfleoedd i aelodau'r staff geisio cael iawn am unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'u cyflogaeth, i fod o dan reolaeth y corff llywodraethu.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu gweithdrefnau—

(a) i reoli ymddygiad a disgyblaeth y staff yn yr ysgol;

(b) i'r staff geisio cael iawn am unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â'u gwaith yn yr ysgol; ac

(c) i ymdrin â diffyg gallu ar ran y staff yn yr ysgol

a rhaid i'r corff llywodraethu gymryd unrhyw gamau y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol i fynegi'r rhain i aelodau'r staff.

(3) Os caiff honiadau eu gwneud yn erbyn aelod o staff yr ysgol sy'n ymwneud â materion amddiffyn plant, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu benodi ymchwiliwr annibynnol i ymchwilio i'r honiadau cyn i unrhyw achos sy'n ymwneud â'r honiadau hynny gael ei wrando.

(4) Rhaid barnu bod person sydd wedi'i benodi gan y corff llywodraethu yn ymchwiliwr annibynnol o dan baragraff (3) yn annibynnol o dan yr amgylchiadau canlynol—

(a) os nad yw'r person yn un o lywodraethwyr yr ysgol o dan sylw;

(b) os nad yw'r person yn rhiant i un o ddisgyblion presennol neu flaenorol yr ysgol o dan sylw;

(c) os nad yw'r person yn un o aelodau staff presennol neu flaenorol yr ysgol o dan sylw;

(ch) os nad yw'r person yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd gan yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol o dan sylw.

(5) Os yw rhoi unrhyw benderfyniad sydd wedi'i wneud gan y corff llywodraethu wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau ar waith yn golygu bod angen cymryd unrhyw gam—

(a) nad yw o fewn y swyddogaethau sy'n arferadwy gan y corff llywodraethu gan neu o dan Ddeddf 2002, ond

(b) sydd o fewn pŵer yr awdurdod,

mae'n rhaid i'r awdurdod gymryd y cam hwnnw ar gais y corff llywodraethu.

(6) Wrth benderfynu ar allu aelodau'r staff, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau sy'n cael eu rhoi o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol.